
TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Signature Tystysgrif mewn Iaith Arwyddion Prydain Lefel 2



**Yn gryno**

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau i gyfathrebu â phobl Fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd bob dydd. Bydd y cymhwyster yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn sgyrsiau hirach a mwy amrywiol nag ar Lefel 1. Bydd y cwrs yn datblygu cyfathrebu yn BSL am fywyd go iawn, trefn feunyddiol a phrofiadau dyddiol. Bydd y dysgwr yn gallu delio â'r rhan fwyaf o gyfathrebu rheolaidd a bydd â digon o ddealltwriaeth o ramadeg i ymdopi â rhywfaint o gyfathrebu nad yw mor gyffredin.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

Ar gyfer y rhai sy'n dymuno ennill sgiliau iaith ar lefel ganolradd i wella cyfathrebu â phobl Fyddar, pobl sydd yn Fyddar ac sy’n dymuno ennill cymhwyster yn eu mamiaith.

Dyma'r dilyniant delfrydol o astudiaeth Lefel 1 yn BSL.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion ffurfiol. Fodd bynnag, bydd gofyn i ddysgwyr fod â gwybodaeth sylfaenol yn BSL cyn dechrau'r cwrs felly mae'n bosib y bydd angen i chi gael cyfweliad mynediad lle gall y tiwtor asesu eich sgiliau BSL.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Ar ôl y cwrs hwn, gallech symud ymlaen i'r Wobr 'Signature' Lefel 3 yn Iaith Arwyddion Prydain.